# ADOLYGIAD ANNIBYNNOL
o'r Llysoedd Troseddol

# ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O'R LLYSOEDD TROSEDDOL

## TROSOLWG

INDEPENDENT REVIEW of the Criminal Courts

# Trosolwg gan Syr Brian Leveson

## Y Broblem

1. Comisiynwyd yr Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol gan y llywodraeth oherwydd yr ôl-groniadau gwirioneddol erchyll sydd wedi datblygu yn ein system cyfiawnder troseddol. Mae'r darlun yn glir. Mae cyfiawnder yn cael ei oedi ac felly'n cael ei wadu. Er mwyn deall maint a natur y problemau ac yna ceisio datblygu atebion, mae angen ystyried y dystiolaeth a'r cyflwyniadau a gefais yn fanwl. Yn ei dro, mae hyn wedi golygu bod adolygiadau hirfaith yn angenrheidiol. Mae Rhan I yn cynnwys bron i 400 o dudalennau ac mae Rhan II yn sylweddol hirach. Dim ond ychydig fydd â'r amser (neu efallai'r awydd) i astudio'r Adolygiadau llawn yn fanwl. Fodd bynnag, rwyf yn annog pawb – yn enwedig y rhai sydd â chyfrifoldeb am ystyried deddfwriaeth yn y maes hwn – i wneud hynny. Ar gyfer y rhai na allant wneud hynny, rwyf yma'n darparu'r trosolwg hwn sy'n darparu'r stori gyflawn ac yn ei gyhoeddi ar wahân ochr yn ochr â'r Crynodebau Gweithredol o Rannau I a II o'r Adolygiad. Bwriedir i'r trosolwg hwn ddarparu rhagor o gyd-destun i'r crynodebau hynny.

2. Mae tu hwnt i ddadl bod hyd yn oed ymchwilio i gwynion troseddol a dechrau erlyniadau (heb sôn am eu taith drwy'r llysoedd) yn profi oedi, mewn rhai achosion am flynyddoedd. Ar gyfer llawer o achosion, mae eu hynt drwy'r system wedi arafu'n sylweddol.[1] Ers 2019, mae'r llwyth achosion agored yn Llys y Goron (sy'n cynrychioli'r achosion mwyaf difrifol) wedi mwy na dyblu. Ym mis Medi 2025, roedd

[1]Am fwy o fanylion, gweler Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II Pennod 2 (Cyd-destun).

yn tua 80,000 o achosion,[2] gyda threialon yn y llysoedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf yn cael eu rhestru tan 2030.[3] Nid yw hon yn broblem ddiweddar. Mae wedi bod yn datblygu ac yn gwaethygu dros nifer o flynyddoedd.

## Y Rhesymau

3. Mae'r rhesymau yn hawdd i'w hadnabod ac fe'u disgrifir yn Adnabod y Broblem (Rhan I, Pennod 2) ac fe'u trafodir ymhellach yn y Cyd-destun (Rhan II, Pennod 2). Y ffactor mwyaf arwyddocaol yw tanariannu cronig ym mhob cam. Mae'r hyn a elwir yn 'gyfyngiadau ar adnoddau' wedi arwain at ostyngiad yn niferoedd yr heddlu (gan arwain yn ei dro at ostyngiad mewn gwaith trwy'r llysoedd), ac yna cynnydd i ymdrin â heriau mwy, er bod gan recriwtiaid mwy diweddar lai o arbenigedd wrth ymchwilio i droseddau. Mae erlyniadau wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron dan bwysau; mae cymorth cyfreithiol troseddol, i bob pwrpas, wedi'i leihau ac mae gwariant yn y maes hwn wedi gostwng. Mae cyfreithwyr a bargyfreithwyr yr amddiffyniad troseddol (a aeth ar streic yn 2022 oherwydd ffioedd) yn gadael y maes ymarfer troseddol; mae rhai yn ceisio meysydd gwaith mwy proffidiol. Fodd bynnag, nid oes dim byd pwysicach i'n cymdeithas ddemocrataidd na sicrhau bod ein system cyfiawnder troseddol yn gweithredu'n deg, yn effeithlon ac yn effeithiol. Heb weithlu cyfreithiol profiadol, ni all wneud hynny. Mae’r llysoedd, y carchardai a gwasanaethau prawf yn gweithio dan bwysau dwys gyda chapasiti cyfyngedig iawn ac mae eu heffeithlonrwydd o ganlyniad yn cael ei effeithio.[4]

4. Mae tanariannu cronig yn ganlyniad i’r ffaith bod yr arian a ddyrannwyd i gyfiawnder troseddol wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn. Cynrychiolir hyn gan sylwad cryno’r Sefydliad Astudiaethau Cyllid: ‘Mae darparu cyfiawnder yn ffracsiwn llai o’r hyn y mae’r llywodraeth yn ei wneud nawr nag yr oedd yn y gorffennol.’ Y canlyniad

---

[2] Ffynhonnell: Ystadegau chwarterol y llys troseddol: Gorffennaf i Medi 2025 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), Rhagfyr 2025).
[3] Ffynhonnell: Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF (GLlTEF), Gwybodaeth Rheoli Heb ei Chyhoeddi.
[4] Gweler Pennod 2 (Cyd-destun) a gweler Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o’r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, Gorffennaf 2025), Pennod 2 (Adnabod y Broblem); Adolygiad Annibynnol o’r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 2 (Cyd-destun).

yw, yn 2025/26 disgwylir i wariant dyddiol Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) fod 14% yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2007/08.[5]

5. Nid arian yw'r unig reswm dros yr argyfwng. Mae cymhlethdod cynyddol y system dros y degawdau diwethaf hefyd yn cyfrannu'n fawr at y broblem. Ar wahân i ehangder a chymhlethdod cynyddol cyfraith droseddol ei hun, mae gwelliannau hefyd wedi'u gwneud i degwch gweithdrefnol. Mae hyn yn cynnwys Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, y rheolau sy'n ymwneud â datgelu deunydd nas defnyddiwyd, mesurau arbennig a rheolau sy'n newid ynghylch derbyn tystiolaeth. Mae pob un wedi bod yn amddiffynfeydd ac yn addasiadau ychwanegol gwerthfawr i gynnal treialon troseddol, ond mae pob un yn dod â chost real yn yr amser y mae treialon yn cymryd i'w gwrando a'u penderfynu. Hefyd, mae mwy o amser yn angenrheidiol o ganlyniad i dechnoleg fodern a chymhlethdod tystiolaethol defnyddio'r deunydd hwnnw yn y llys. Mae hyn yn cynnwys data cyfathrebu (meta ddata defnyddio ffonau symudol) ynghyd â'r swm enfawr o ddeunydd digidol sydd ar gael bellach, y mae'n rhaid ei ddadansoddi ac yna ei gyflwyno mewn cymaint o ymchwiliadau.[6]

6. Ymhellach, mae'r math o achosion sy'n dod gerbron y llysoedd wedi newid. Gan roi twyll a therfysgaeth o'r neilltu, mae trais a throseddau rhywiol yn cynrychioli cyfran uwch o'r llwyth achosion. Canlyniad yr holl ddatblygiadau hyn yw bod hyd treialon wedi cynyddu'n sylweddol.[7]

7. Yn olaf, wrth i nifer yr achosion sy'n dod i mewn i'r system gynyddu, oherwydd y gostyngiad mewn cyllid a'r cymhlethdod cynyddol, nid oes gan y llysoedd y gwytnwch i ymdopi mwyach. Felly mae nifer yr achosion sy'n aros i gael eu penderfynu wedi cynyddu. Mae'r cynnydd hwn wedi'i waethygu gan COVID-19 a (hyd at ryw bwynt) gan y gweithredu diwydiannol gan y Bar Troseddol. Bydd y Genhadaeth

---

[5] Ffynhonnell: Gwariant ar gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr (Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (IFS), Chwefror 2025).
[6] Am fwy o fanylion, gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (2025), Pennod 2 (Adnabod y Broblem).
[7] Am fwy o fanylion, gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 2 (Cyd-destun), para. 56.

Strydoedd Mwy Diogel, y strategaeth hanfodol i ddelio â thrais yn erbyn menywod a merched a'r cynnydd aruthrol mewn dwyn o siop, ond yn cynyddu ymhellach nifer yr achosion sy'n dod i mewn i'r system cyfiawnder troseddol.

8. Ar yr un pryd, mae effeithlonrwydd o fewn y system wedi gostwng wrth i boblogaeth gynyddol y carchardai (a'r boblogaeth ar remand gynyddol) roi mwy o bwysau ar Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), sydd ei hun yn destun cyfyngiadau ar adnoddau).[8] Mae hyn wedi creu anawsterau wrth gludo carcharorion i'r llys, yn rhannol oherwydd y nifer sy'n cael eu cadw mewn carchardai sydd bellter sylweddol i ffwrdd o'r llys lle maent ar dreial. Mae'r broblem hon, ynghyd â phrinder personél llys (boed yn staff llys neu'n eiriolwyr) yn cyfuno i wthio dyddiadau treial ymhellach i'r dyfodol. Mae hyn, heb os, yn lleihau'r cymhelliant i'r rhai sy'n barod i gyfaddef euogrwydd gyflwyno ple euog cynnar. Mae rhai yn ceisio nid yn unig gohirio diwrnod y treial ond hefyd, o bosibl, yn gweithredu gan obeithio y bydd oedi yn achosi i ddioddefwyr a thystion dynnu'n ôl. Y canlyniad yw bod dioddefwyr a thystion yn dioddef, a chyfiawnder wedi'i oedi yn dod yn gyfiawnder wedi'i wadu. Mae'n ffaith bod dioddefwyr yn tynnu'n ôl o'r broses er mwyn symud ymlaen â'u bywydau.

## Y Canlyniad

9. Crynhoi'r problemau a ddisgrifir yn nwy ran yr Adolygiad y mae'r uchod. I mi o leiaf, nid yw'n syndod o gwbl.[9] Mae wedi bod yn amlwg i mi o'r cychwyn cyntaf bod graddfa'r broblem yn golygu na all mwy o arian yn unig unioni'r broblem yn ddigon buan (os o gwbl). Mae hynny'n amlwg o'r dystiolaeth ddadansoddol yn Rhan I. Yn yr un modd, mae graddfa a natur ddwfn y problemau hefyd wedi ei gwneud yn glir i mi na fyddai mesurau effeithlonrwydd yn unig (hyd yn oed pe gellid eu rhoi ar waith yn

---

[8] Gweler hefyd, Ystadegau chwarterol rheoli troseddwyr: Ebrill – Mehefin 2025 (MoJ a HMPPS, Hydref 2025); Rôl remandio oedolion yn y ddalfa yn y system cyfiawnder troseddol (Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, Ionawr 2023).

[9] Roeddwn yn gysylltiedig â cheisio rheoli gweithrediad cyfiawnder troseddol rhwng 2001 a 2019 pan wnes i ymddeol, ac rwyf wedi parhau i gymryd diddordeb brwd yn yr hyn sydd wedi digwydd ers hynny. Pan gynhaliais yr Adolygiad o Effeithlonrwydd mewn Achosion Cyfreithiol yn 2015 gyda gofyniad i beidio â delio â newid deddfwriaethol, roeddwn yn ddigon pryderus am y dyfodol i'r fath raddau fel bod Pennod 9 ('Allan o Gwmpas') yn cyfeirio at newid deddfwriaethol posib y gellid ei ystyried.

gyflym[10]) yn ddigonol i ateb nifer yr achosion sy'n dod i mewn i'r system bellach, heb sôn am leihau'r llwyth achosion agored. Dyma rai o'r rhesymau pam y cytunais i'r Cylch Gorchwyl a oedd yn gofyn i mi ystyried materion diwygio polisi strwythurol yn Rhan I cyn mynd i'r afael ag effeithlonrwydd yn Rhan II. Nid yw hynny'n awgrymu fy mod yn osgoi mynnu mwy o arian ar gyfer y system. Rwyf wedi bod yn glir drwyddi draw bod rhaid i bopeth ddod ynghyd – mwy o adnoddau, diwygio strwythurol ac effeithlonrwydd. Mae hyn yn rhoi'r siawns orau i'r system gael ei hadfer i fersiwn weithredol o'r hyn sy'n gyfarwydd ac yn caniatáu i gyfiawnder gael ei weinyddu'n deg ac mewn amser rhesymol.

## Ffactorau Allweddol Diwygio

10. Yn groes i honiad nifer o'r rheini sy'n herio'r argymhellion a gyflwynwyd yn Rhan I o'r Adolygiad, nid yw'r archwiliad o'r problemau a'r cynnig o argymhellion wedi'u hysgogi'n syml gan yr angen i arbed arian. Yn wir, mae'n sicr bod angen mwy o arian yn hanfodol i adferiad, ond rwy'n ailadrodd yr egwyddorion sydd wedi llywio'r Adolygiad o'r cychwyn cyntaf.[11] Mae'r rhain yn cynnwys gwneud penderfyniadau priodol a theg, cynyddu cyfranogiad a chyfiawnder agored, darparu agwedd gymesur at weithredu prosesau treial sy'n deg ac sydd â mesurau diogelu i atal anghymesuredd, gan sicrhau hefyd yr amseroldeb sydd ei angen er budd dioddefwyr, diffynyddion a thystion. Mewn perthynas ag effeithlonrwydd yn Rhan II, rwyf wedi ychwanegu sicrhau ei fod yn gywir y tro cyntaf, meithrin diwylliant o gydweithredu, lleihau gwastraff i'r eithaf, arddangos arbenigedd a chynaliadwyedd ac ehangu prosesau drwy dechnoleg.[12]

---

[10] Mae hon ei hun yn rhagdybiaeth heriol: mae angen mynd i'r afael â phroffil oedran cyfreithwyr yr amddiffyniad mewn achosion troseddol a barn bargyfreithwyr canol-radd eu bod yn dymuno gadael ymarfer troseddol ond ni fydd yn digwydd yn gyflym: mae perswadio cyfreithwyr dibrofiad i ymgymryd ag ymarfer troseddol a rhoi'r profiad sydd ei angen arnynt i gynghori yn y maes hwn yn cymryd amser. Mae'r un peth yn wir am gynghorwyr cyfreithiol yn y llys ynadon ac, yn gyffredinol, ar gyfer staff y llysoedd sydd angen gallu rhedeg llys troseddol.

[11] Gweler [Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I] (MoJ, 2025), Pennod 1 (Cyflwyniad), para. 10 ac Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 1 (Cyflwyniad) para. 13.

[12] Gweler Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, [Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I] (MoJ, 2025), Pennod 1 (Cyflwyniad), para 14.

## Sut mae Rhannau I a II o'r Adolygiad yn Gweithredu ac yn Perthyn i'w Gilydd

11. Bwriedir i Rannau I a II o'r Adolygiad gael eu darllen gyda'i gilydd oherwydd, ar y cyd, maent yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu pob un o'r asiantaethau sy'n ymwneud â darparu cyfiawnder. Mae Rhan II yn cynnwys argymhellion ar lefel fanylach na Rhan I ac, o ganlyniad, mae'r rhain yn fwy niferus a manwl. Mae'r pecyn cyfan o argymhellion rwyf wedi'u gwneud yn cydblethu â'i gilydd. Er enghraifft, yn Rhan I, argymhellais ddefnyddio a datblygu strategaethau ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys (OOCRs) yn fwy.[13] Er eu bod yn cefnogi'r argymhelliad, cododd yr heddlu yr angen am adnoddau. Yn Rhan II, rwyf wedi ceisio rhyddhau'r heddlu o'r hyn yr wyf yn ei ystyried yn brosesau diangen a biwrocrataidd. Mae'r rhain yn ymwneud â pharatoi ffeiliau, diwygio gwybodaeth a deunydd rhagdybiaeth wrthbrofol sydd, er eu bod wedi'u creu gyda'r bwriadau gorau, ddim bob amser yn cynrychioli'r hyn y mae'r gyfraith yn ei ofyn ac maent wedi bod yn gostus o ran adnoddau.[14] Mae fy argymhellion nid yn unig yn beth iawn i'w wneud i sicrhau gwelliannau uniongyrchol, teg a chymesur i'r broses, ond byddant hefyd yn dileu rhywfaint o bwysau ac felly'n caniatáu i rywfaint o adnoddau gael eu neilltuo i OOCR.

12. Yn y Cyflwyniad hwn, rwyf wedi ceisio dwyn y rhannau ynghyd a chydblethu byrdwn eang yr argymhellion i mewn i naratif achos o ymchwiliad yr heddlu hyd at ddiwedd treial. Fodd bynnag, rhaid imi bwysleisio nad yw'r crynodeb byr hwn yn cymryd lle ystyriaeth fanwl o'r heriau na'r atebion a nodir yn yr Adolygiad.

## Un Gweledigaeth ar gyfer System Cyfiawnder Troseddol Tameidiog

13. Yn sail i'r holl argymhellion mae llywodraethiant tameidiog a phenderfyniadau yn cael eu gwneud mewn silo heb weledigaeth unedig nac atebolrwydd ar draws asiantaethau ac ar draws y wlad. Mae gan yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG), y gymuned amddiffyn, GLlTEF a HMPPS eu cyfyngiadau ariannol eu hunain a'u blaenoriaethau eu hunain. Mae'r rhain yn cynnwys systemau TG sydd wedi

---

[13] Gweler ibid, Pennod 3 (Dargyfeiriadau).

[14] Gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Cael Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf).

dyddio a rhyngweithrededd gwael sy'n rhwystro'r gallu i addasu. Felly, rwyf yn argymell un weledigaeth ar gyfer y system cyfiawnder troseddol, gyda pholisi yn cael ei benderfynu gan Weinidogion ac arweinyddiaeth gydgysylltiedig dan gyfarwyddyd Ail Ysgrifennydd Parhaol o fewn MoJ. Rwyf wedi cynnig y teitl swydd 'Cynghorydd Cyfiawnder Troseddol y Prif Weinidog'. Byddai gan ddeiliad y rôl awdurdod statudol a chomisiwn penodol y Prif Weinidog. Byddai'r Ysgrifennydd Parhaol newydd yn diffinio awdurdod cydgysylltiadau traws-adrannol gan barchu annibyniaeth weithredol ar yr un pryd.[15]

14. Rwyf hefyd yn argymell datblygu strwythur llywodraethu diwygiedig gyda pholisi yn cael ei benderfynu gan Weinidogion. Byddwn yn cynnwys Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol. Byddai hyn yn dod â'r materion iechyd meddwl difrifol y mae'n rhaid i gyfiawnder troseddol ymdrin â nhw ar hyn o bryd i galon y broses benderfynu. Dylai Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (neu, yn fwy tebygol, Rhanbarthol) (gyda'r ffiniau'n alinio ar draws cyfiawnder troseddol) fod yn atebol i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol am gyflawni mesurau perfformiad. Rwyf hefyd yn argymell gwell ansawdd data a rhyngweithrededd systemau TG ar draws asiantaethau cyfiawnder troseddol.[16]

15. Gan symud ymlaen at weithrediad cyfiawnder troseddol, rwyf yn argymell y gallu i gyfreithwyr gynghori unigolion dan amheuaeth yn yr orsaf heddlu o bell, gan wneud y mwyaf o gyfranogiad ac ymgysylltiad cynnar.[17] Dylid ehangu'r defnydd o Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, gan gymhwyso prosesau gweinyddu safonol a chyfiawnder adferol integredig ar gyfer achosion nad oes angen iddynt fynd i'r llys o gwbl.[18] Gall canlyniad achosion gynnwys hysbysiad cosb ariannol neu raglen

[15] Gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 3 (Un System Cyfiawnder Troseddol).
[16] Gweler ibid.
[17] Gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Cael Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf).
[18] Mae'r defnydd presennol wedi gostwng 35% oherwydd cymhlethdodau a diffyg ymwybyddiaeth. Gweler Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025), Pennod 3 (Dargyfeiriadau). Hefyd, rhaid rhoi clod i'r heddlu am ddatrys troseddau yn yr achosion hyn.

adsefydlu. Lle mae achosion yn galw am ymchwiliad gyda golwg ar erlyniad, o gofio bod rhyddhau dan ymchwiliad yn achosi oedi heb ei reoli, rwyf yn argymell ei ddiddymu, gyda phrosesau mechnïaeth gwell a newid i ddull yr heddlu o wneud penderfyniadau.[19]

16. Ffocws sylweddol Rhan II yw cryfhau'r cydweithio rhwng yr heddlu a GEG. Dylai gwell cyfathrebu, hyfforddiant a dealltwriaeth ar y cyd gynorthwyo'r asiantaethau i wneud penderfyniadau cyhuddo mwy cymesur.[20] Pan fo erlyniad yn cael ei ystyried, mae ansawdd gwael ffeiliau achos ac oedi yn tanseilio'r broses. Mae yna fylchau cyfathrebu rhwng yr heddlu a GEG gyda chanllawiau cymhleth a hyfforddiant anghyson ynghyd â gweithlu llai profiadol (sydd i gyd yn atal y rhagolygon o 'ei gael yn iawn y tro cyntaf'). Rwy'n argymell y dylid hysbysu cyfreithwyr yn awtomatig am ganlyniadau cyhuddo er mwyn cynnal ymgysylltiad cynnar. Ar gyfer yr heddlu a GEG, rwy'n galw am well hyfforddiant a defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) i ddatblygu adnoddau cymorth ynghyd â'r gallu i ryngweithredu'n ddigidol i wella a lleihau'r amser a gymerir ar gyfer gwneud penderfyniadau cyhuddo. Dylid dileu'r gofyniad i'r heddlu wneud gwaith diwygio i ddeunydd cyn-cyhuddo sy'n cael ei rannu â GEG.[21]

## Datgeliadau

17. Un o'r heriau cynyddol unwaith y bydd erlyniad wedi dechrau yw datgeliad. Mae wedi mynd yn fwyfwy cymhleth gyda swmp tystiolaeth ddigidol yn gwaethygu aneffeithlonrwydd. Ar ben hynny, mae methiant datgeliad priodol yn peri risg o gamweddu cyfiawnder. Rwy'n argymell dileu'r rhagdybiaeth wrthbrofol sy'n arwain at ddatgelu llawer iawn o ddeunydd (nad yw o reidrwydd yn bodloni'r prawf o danseilio'r erlyniad neu gynorthwyo'r amddiffyniad).[22] Rwyf ymhellach yn argymell defnyddio adnoddau crynhoi AI ar gyfer amserlenni datgelu (gyda'r amddiffyniad yn cael caniatâd i gynnig termau chwilio ar gyfer deunydd nas defnyddiwyd). Mae angen

---

[19] Gweler ibid, Pennod 4 (Ymchwiliadau a Phenderfyniadau).
[20] Gweler ibid.
[21] Gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 4 (Yr Heddlu a'r Erlyniad: Cael Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf).
[22] Rwyf yn ymwybodol bod modelau gwahanol yn cael eu peilota. Yn fy marn i, mae angen ei ddiwygio'n sylweddol.

hyfforddiant datgelu ychwanegol (yn enwedig mewn perthynas â threisio a throseddau rhywiol difrifol (RASSO)) a gofyniad i gyflwyno datgeliad cychwynnol achos yr erlyniad (IDPC) yn amserol, a chryfhau gallu barnwyr i atal codi materion hwyr yn y treial heb achos da.[23]

## Gwrando Mwy o Achosion yn y Llys Ynadon

18. Er mwyn sicrhau bod achosion yn aros ar y lefel briodol o fewn strwythur y llys, rwyf yn argymell dileu'r hawl i ddewis treial gyda rheithgor ar gyfer troseddau lefel isel (gyda uchafswm o lai na dwy flynedd o garchar). Rwyf hefyd yn argymell ail-ddosbarthu nifer o droseddau fel troseddau diannod yn unig, gyda'r llys ynadon yn cadw'r hawl i roi dedfryd o hyd at 12 mis o garchar. Yn ogystal, rwyf yn argymell y dylid cymryd recordiad clywedol o achosion llys ynadon ac y byddai angen caniatâd Llys y Goron ar apêl i'r llys hwnnw ar bwynt cyfreithiol (ac at y diben hwnnw, gellir trawsgrifio'r rhannau perthnasol o'r recordiad gan ddefnyddio AI).[24]

## Rhestru

19. Rhestru yw'r broses farnwrol o baru achos gyda llys sydd â barnwr a chynrychiolwyr cyfreithiol priodol. Ymdrinnir â hyn yn wahanol yn y llys ynadon a Llys y Goron. Ymhellach, nid oes cysondeb yn y dull gweithredu ledled y wlad, er cydnabyddir bod gor-restru yn arwain at dreialon aneffeithiol ac adnoddau wedi'u gwastraffu ym mhob llys. Bwriedir i restru mwy o achosion na gall y llys o bosib eu gwrando sicrhau bod y llys yn brysur â gwaith pan fydd achos yn cael ei ddatrys yn gyflymach na'r disgwyl. Gallai hyn fod naill ai oherwydd ple euog hwyr neu gwymp erlyniad (sydd hefyd yn wastraffus). Mewn perthynas â'r llys ynadon, rwyf yn cymeradwyo gwaith Grŵp Gwella'r Llysoedd Troseddol sy'n adolygu polisïau rhestru cyfredol. Ar gyfer Llys y Goron, rwyf yn argymell fframwaith rhestru cenedlaethol gan ddefnyddio adnoddau AI i gynorthwyo'r swyddogaeth farnwrol hon. Byddai gan hyn ddangosfyrddau data amser real ac adnodd amserlennu o fewn y Platfform

[23] Gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 5 (Datgeliadau).
[24] Gweler Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025), Pennod 5 (Proses y Llys Ynadon) a Phennod 6 (Apeliadau o'r Llys Ynadon). Rwy'n ymwybodol bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi cyhoeddi dull gwahanol o ymateb i'r argymhelliad hwn. Dychwelaf at ei gyhoeddiad ar 2 Rhagfyr 2025 isod.

Cyffredin. Dylid symud achosion yn haws hefyd rhwng llysoedd. Mae angen adolygu graddfeydd cyflog swyddogion rhestru a gwella’u llwybrau hyfforddiant.[25]

## Prosesau Llys

20. Gan symud ymlaen at brosesau'r llys, mae gwaith paratoi gwael yn gynnar yn y broses a rheoli achosion yn anghyson yn achosi rhagor o oedi. Mae angen penodi Swyddogion Hwyluso Achosion ym mhob llys i sicrhau bod y partïon yn dilyn y prosesau cydymffurfio disgybledig y mae’r Rheolau Trefniadaeth Droseddol yn ei gwneud yn ofynnol. Byddai'r Rheolau hyn yn elwa ar gael eu symleiddio a'u digideiddio er mwyn eu hintegreiddio i mewn i adnoddau digidol sy'n cael eu datblygu ar draws asiantaethau, a thrwy hynny annog diwylliant o gydymffurfio. Dylid gwella hyfforddiant rheoli achosion ar gyfer ynadon a chynghorwyr cyfreithiol (dylai fod yn gallu eistedd ar eu pen eu hunain mewn Llysoedd Ple Dieuog Disgwyliedig (NGAP) i ddelio â materion rhagarweiniol yn unig) gydag adnoddau hwyluso achos rhyngweithiol digidol ac awtomataidd ar gyfer rheoli’r mewnflwch. Yn dilyn cynnal cynllun peilot priodol, dylid ymestyn y cyfnod cyn y Gwrandawiad Pledio a Pharatoi ar gyfer Treial (PTPH) i sicrhau bod diffynyddion wedi cael cyfle i gael cyngor cyfreithiol gwybodus. Dylid bod yn barod i ehangu'r defnydd o broses *Goodyear* a chynyddu'r gostyngiad ar gyfer cofnodi ple euog ar y cyfle cynharaf posib. Dylid mabwysiadu defnydd Llys y Goron o Wrandawiadau Adolygu Terfynol yn genedlaethol i sicrhau bod treialon yn effeithiol.[26]

## Cymryd Rhan o Bell a Mwy o Ddefnydd o Dechnoleg

21. Dylid gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfleuster cymryd rhan o bell ond gyda mesurau diogelu mewn lle. Dylid ymestyn hyn i wrandawiadau cyntaf yn y llys ynadon, a reolir mewn gorsafoedd heddlu gan gontractwyr Gwasanaethau Hebrwng a Chadw Carcharorion (PECS). Dylai gwrandawiadau rhagarweiniol yn Llys y Goron fod yn rhannol o bell yn ddiofyn a, lle bo'n addas, yn gyfan gwbl o bell. Dylai treialon barhau

[25] Gweler Adolygiad Annibynnol o’r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 7 (Paratoi ar gyfer y Gwrandawiad Cyntaf a Rheoli’r Achos).
[26] Gweler Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o’r Llysoedd Troseddol: Rhan I (2025), Pennod 7 (Cynyddu Ymgysylltiad Cynnar yn Llys y Goron).

i fod wyneb yn wyneb ond dylai presenoldeb o bell ar gyfer tystion proffesiynol penodol (fel swyddogion heddlu, tystiolaeth barhad a thystiolaeth debyg) fod o bell yn ddiofyn. Dylai diffynyddion ar remand allu ymddangos o bell, ac eithrio lle mae datganiadau effaith dioddefwyr i'w cyflwyno.[27] Mae angen monitro prinder cyfieithwyr ar y pryd a dylid treialu cyfieithu ar y pryd gan ddefnyddio AI. Yn amodol ar drefniadau contractiol, dylid defnyddio cyfieithu ar y pryd AI wedyn mewn unrhyw achos lle nad yw cyfieithwyr ar y pryd ar gael neu ar gyfer gwrandawiadau megis crybwylliadau heblaw am dreialon a gwrandawiadau dedfrydu.[28]

22. Yn ogystal ag ar gyfer trawsgrifio a chyfieithu, rwyf yn argymell defnyddio technoleg i gynorthwyo gyda phrosesau gwrandawiadau eraill megis paratoi adroddiadau cyn dedfrydu. Rwyf hefyd yn argymell annog rhyngweithredadd rhwng systemau TG p'un ai drwy ddefnyddio Rhyngwynebau Rhaglennu Cymwysiadau (APIs) neu fel arall. Mae'r rhain yn lleihau'r angen i ail-deipio ac yn cynyddu hygyrchedd data angenrheidiol sydd ei angen ar wahanol asiantaethau. Mae buddsoddiad mewn technoleg o'r fath hefyd yn hollbwysig ar gyfer defnyddio TG yn y llys i sicrhau bod technoleg yn hwyluso ac nid yn atal defnydd effeithiol o dystiolaeth sydd ar gael fel delweddau TCC neu ddeunydd camera a wisgir ar y corff.

23. Bydd cynyddu'r defnydd o dechnoleg fideo ar gyfer achosion yn y llys neu wrandawiadau rhagarweiniol eraill, ac ar gyfer cyfarfodydd rhwng diffynyddion a bargyfreithwyr, yn lleihau nifer y symudiadau sydd eu hangen o sefydliadau cadw i'r llys. Yn unol â hynny, dylid gweld gwelliant yn effeithlonrwydd y symudiadau 'angenrheidiol'. Dylai data amser real ynghylch lleoliad carcharorion a gwell cyfathrebu ar gyfer rhestrau'r llys wella'r prosesau ar gyfer cludo diffynyddion i'r ddalfa hefyd. Rwy'n argymell gosod dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) ar gyfer PECS a byddwn yn annog cerbydau PECS i ddefnyddio lonydd sydd wedi'u

[27] Gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 8 (Cymryd Rhan o Bell).
[28] Gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 9 (Prosesau Gwrandawiadau).

neilltuo ar gyfer bysiau. Dylid monitro oedi wrth ddarparu Adroddiadau Cyn Dedfrydu (PSR) hefyd.[29]

## Treialon gyda Rheithgor ac Adran Mainc Llys y Goron

24. O ran Llys y Goron, rwy'n argymell creu 'Adran Mainc' newydd o fewn Llys y Goron lle byddai barnwr a dau ynad, heb reithgor, yn gwrando achosion lle mae'r barnwr yn rhagweld y rhoddir dedfryd o dair blynedd neu lai o garchar yn y PTPH. Byddai hyn yn adeiladu ar awgrymiadau adolygiadau annibynnol blaenorol (fel Adolygiad Auld 2001[30]) ar gyfer creu Llys Canolradd. Yn y pen draw, byddai gan yr Adran Mainc arfaethedig yr un pwerau dedfrydu ag sydd ar hyn o bryd yn Llys y Goron. Byddai'r llys yn gallu eistedd mewn unrhyw ystafell llys a byddai apeliadau yn digwydd fel y maent ar hyn o bryd yn y Llys Apêl (Adran Droseddol). I gefnogi'r Adran Mainc, rwyf hefyd yn argymell cynyddu dyddiau eistedd yn Llys y Goron dros amser i 130,000 y flwyddyn, cyn gynted ag y bo'n ymarferol o ystyried y cyfyngiadau ar gapasiti.[31]

## Treialon Barnwr Yn Unig drwy Ddewis ac Achosion Twyll Cymhleth ac Eraill

25. Ymhellach, mewn perthynas â Llys y Goron, dylid caniatáu i ddiffynnydd allu dewis bod ei achos yn cael ei wrando a'i benderfynu gan farnwr yn unig, yn amodol yn unig ar gydsyniad y Barnwr. Dyma'r system mewn gwledydd cyfraith gwlad fel Seland Newydd, Canada a rhai taleithiau yn Awstralia. Yn ogystal, dylai'r llys allu orchymyn bod achosion twyll difrifol a chymhleth ynghyd â threialon eraill o hyd a chymhlethdod eithriadol disgwyliedig fel y'u diffinnir gan adran 29 Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 yn cael eu gwrando a'u penderfynu gan farnwr yn unig.[32]

---

[29] ibid.
[30] Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Auld, Adolygiad o'r Llysoedd Troseddol yng Nghymru a Lloegr (HMSO, Hydref 2001).
[31] Gweler Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025), Pennod 8 (Strwythur Llys y Goron).
[32] Gweler ibid, Pennod 9 (Treial gan Farnwr yn Unig).

## Recriwtio

26. Mae yna nifer o anawsterau yn bodoli o ran recriwtio a chadw staff ar draws y gweithlu cyfreithiol yn y system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn ymestyn y tu hwnt i farnwyr, ynadon a chynghorwyr cyfreithiol ac yn cynnwys bargyfreithwyr, cyfreithwyr ac aelodau o'r gwasanaeth llysoedd. I rai, mae hyn o ganlyniad i anghyfartaledd cyflog, i eraill mae'n llwybrau gyrfa gwael neu hyblygrwydd cyfyngedig. Mae'n tanseilio morâl. Mae'n effeithio ar niferoedd staff newydd, ac fe allai, yn y tymor hir ac oni chaiff sylw, greu rhwystr difrifol i ddatrys honiadau troseddol yn deg, yn effeithlon ac yn gyflymach. O ganlyniad mae angen recriwtio mwy o ynadon a gwella mecanweithiau ar gyfer penodi barnwyr cyflogedig a barnwyr sy'n derbyn ffi. Mae angen cydraddoldeb cyflog hefyd ar gyfer cynghorwyr cyfreithiol a chyllid ar gyfer cytundebau hyfforddi a phrentisiaethau. Mae angen adolygu cymhwysedd cymorth cyfreithiol a ffioedd gan gyflwyno mecanwaith ar gyfer taliadau fesul cam hefyd. Dylid casglu data manwl am y gweithlu a defnyddio adnoddau AI i wella sgiliau gweithredol ar draws pob asiantaeth cyfiawnder troseddol.[33]

## Materion Ehangach sy'n Effeithio ar y System Cyfiawnder Troseddol

27. Mae'r Adolygiad hefyd yn cyffwrdd â materion cyfiawnder troseddol ehangach. Mae salwch meddwl yn effeithio ar nifer sylweddol o'r rheini sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Byddai llawer yn elwa ar gymorth mawr ei angen gyda'u hiechyd meddwl yn hytrach na chael eu trin drwy'r llysoedd. Mae gwasanaethau cyswllt a dargyfeirio yn hanfodol mewn gorsafoedd heddlu. Mae strategaeth drawslywodraethol gynhwysfawr a'i heffaith ar gyfiawnder troseddol yn hanfodol. Dylid ehangu Byrddau Partneriaeth Cyffuriau i gynnwys darpariaeth iechyd

---

[33] Gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 10 (Y Farnwriaeth a'r Gweithlu Cyfreithiol); Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025), Pennod 7 (Cynyddu Ymgysylltiad Cynnar yn Llys y Goron) a Phennod 8 (Strwythur Llys y Goron).

meddwl. Ar yr un pryd, gall Llysoedd Datrys Problemau sy'n eistedd ar adegau priodol helpu i roi gwarediadau priodol mewn ymgais i atal aildroseddu.[34]

## Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO)

28. Mae anghenion dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol a'r rheini a gyhuddir o droseddau o'r fath yn creu heriau unigryw yr wyf wedi ceisio mynd i'r afael â nhw mewn gwahanol rannau o'r Adolygiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys cyfweliadau Sicrhau'r Dystiolaeth Orau (ABE), datgelu, derbyn tystiolaeth a rhestru. Mae eu dwyn ynghyd yn gofyn am fentrau traws-system wedi'u targedu i wella'r ffordd y cânt eu trin.[35]

## Cefnogaeth i Fenywod a Phlant yn y Ddalfa

29. Yn yr un modd, mae'r diffyg cynrychiolaeth ymhlith menywod a phlant yn y ddalfa wedi arwain at lai a llai o gyfleusterau remand a thriniaeth. Mae modelau fel Hope Street yn Southampton yn darparu cyfleusterau cymunedol y dylid eu hehangu ar gyfer menywod a dylai cyfleusterau tebyg fod ar gael i blant.[36] Dylid ystyried darparu cyfleusterau remand i fenywod a phlant yn agosach at y llysoedd lle cynhelir eu treial.

## Ystad Llysoedd sy'n Dirywio

30. Yn olaf, mae ystad y llysoedd yn dioddef o danfuddsoddi cronig, gydag ôl-groniad cynnal a chadw o £1.3 biliwn a chyfleusterau sy'n anaddas ar gyfer gofynion modern. Ar wahân i wneud nifer o lysoedd yn anaddas i'w defnyddio, mae'r diffygion hyn hefyd yn gwaethygu'r materion moesol sy'n effeithio ar y rhai sy'n gweithio yn y system. Mae atgyweirio'r llysoedd yn gam angenrheidiol ond, ar ei ben ei hun, yn amlwg yn annigonol i fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu'r system. Rwy'n argymell

[34] Gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 11 (Materion Cyfiawnder Ehangach).
[35] At y diben hwnnw, wrth ymdrin â phlant sy'n ddioddefwyr camdriniaeth, croesawaf gyhoeddiad y llywodraeth ynghylch ymestyn model Barnahus tu hwnt i'r 'Lighthouse' yn Camden.
[36] Yn Rhan I, argymhellais y dylid adolygu Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Argymhelliad 7); yn Rhan II, rwyf yn mynd i'r afael ymhellach â'r polisi ar gyfer adsefydlu plant a gyflawnodd droseddau pan oeddent dan 18 oed.

bod y llywodraeth yn comisiynu arolygiad o ystad gorfforol y llysoedd ac yn nodi meysydd i'w gwella. Rwyf hefyd yn argymell bod GLlTEF yn cyhoeddi strategaeth ystad ar ôl 2031 ac yn nodi sut y gellir gwneud y mwyaf o gapasiti'r ystad droseddol i ystyried yr argymhellion o ddwy ran yr Adolygiad hwn.[37]

## Datblygiadau Ers Cyhoeddi Rhan I

31. Yn dilyn cyhoeddi Rhan I, ar 2 Rhagfyr 2025, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog fwriad i ddeddfu mewn ymateb i nifer o'r argymhellion. Ers hynny, gofynnwyd dro ar ôl tro i mi am fy sylwadau mewn perthynas â'r cynigion a wnaed ganddo. Yn benodol, mae hyn wedi bod mewn perthynas â'r meysydd hynny lle rwyf wedi gwneud argymhellion sydd wedi'u haddasu, argymhellion sydd heb gael eu hystyried ymhellach neu mewn perthynas â'r rhai nad oes ymateb wedi bod eto. O ystyried y bwriad i ddeddfu a'r ffaith bod fy ngwaith wedi parhau i gynhyrchu ail ran yr Adolygiad, mae'n iawn fy mod yn gwneud sylw. Wrth wneud hynny, rwy'n cydnabod, wrth gwrs, mai lle'r llywodraeth, y Senedd ac, i ryw raddau, y farnwriaeth yw penderfynu sut i fynd i'r afael â'r her y mae cyfiawnder troseddol yn ei hwynebu.[38]

32. Yn Rhan I, dywedais nad oedd yr argymhellion yn gyfres o opsiynau 'dewis-a-dethol'. Fel y dywedais yn glir wrth y Pwyllgor Dethol Cyfiawnder,[39] nid oeddwn yn bwriadu, gyda'r ymadrodd hwnnw, ei gwneud yn ofynnol i'r llywodraeth ddilyn pob un argymhelliad yn gaeth. Yr hyn yr oeddwn yn ceisio ei gyfleu oedd, yn fy marn i, byddai dewis un neu ddau yn unig o'r argymhellion yn annigonol. Os oes unrhyw obaith o

---

[37] Gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan II (2026), Pennod 11 (Materion Cyfiawnder Ehangach).

[38] Nid lleiaf oherwydd nad wyf wedi rhoi unrhyw sicrwydd y bydd yr atebion (naill ai mewn perthynas â pholisi neu effeithlonrwydd) yn datrys y problemau. Ym mharagraff 13 o'r Cyflwyniad i Ran I, dywedais:

> 'Nid wyf yn cynnig yr argymhellion hyn, sydd yn aml yn radical, yn ysgafn. Fodd bynnag, nid wyf ychwaith yn credu bod dewis mwy realistig ar gael. Nid wyf yn teimlo'n abl i warantu llwyddiant, ond nid oes gennyf amheuaeth na fydd newid llai dramatig yn newid y darlun cyffredinol. Fy nghasgliad yw mai dim ond drwy effaith gyfunol y mesurau hyn y gellir cymryd camau i ddechrau mynd i'r afael â'r argyfwng hwn (a, gobeithio, ei oresgyn).'

Dyna yw fy marn o hyd ac mae'n gofyn am gyflwyno mesurau polisi ac effeithlonrwydd. Fel yr egluraf, mae'n hollbwysig gwneud popeth posibl i wella effeithlonrwydd y system, hyd yn oed os mai dim ond i ddangos i'r Trysorlys ac eraill nad yw arian cyhoeddus yn cael ei wastraffu ond ei fod yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl.

[39] Tystiolaeth lafar: Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol (Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, Tachwedd 2025).

fynd i'r afael â'r llwyth achosion sydd heb ei ddatrys, roedd yn rhaid cael dull gweithredu ar draws y system gyfan a oedd yn cwmpasu prif ystyr yr hyn yr oeddwn yn ei gynnig a hefyd yn delio â'r materion yn ymwneud ag effeithlonrwydd. I'r graddau y bu ymateb, credaf mai dyma'r hyn y mae'r llywodraeth wedi ceisio ei wneud. Edrychaf ymlaen at ymateb gan y llywodraeth mewn perthynas â phob un o'r argymhellion a wneuthum.

33. Y newid mwyaf arwyddocaol a nodir yn y cynigion gan y llywodraeth yn dilyn fy argymhellion Rhan I yw'r penderfyniad i ddileu'r hawl i ddewis treial gyda rheithgor. Mae hwn yn bosibilrwydd a ragwelais.[40] Mae gan yr opsiwn polisi hanes hir. Roedd y Comisiwn Brenhinol (a gadeiriwyd gan Is-iarll Runciman) a Syr Robin Auld o'r farn mai'r llys ddylai benderfynu ar y math o dreial, yn amodol ar apêl. Yn 2015, adroddais fod llawer o'r rhai sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol o'r farn mai'r llys, ac nid y diffynnydd, ddylai benderfynu ar ffurf treial.[41]

34. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth mai penderfyniad i'w wneud gan y llywodraeth ac, yn y pen draw, y Senedd yw hwn. Os mai dyna'r farn a gymerir, mae rhan o argymhelliad 15 (i'r graddau bod cyfyngu'r hawl i ethol wedi'i gyfyngu i rai troseddau lefel isel) yn diflannu, fel y mae argymhellion 16 ac 18 ar y sail bod y rhain yn dibynnu ar gadw hawl i ethol mewn achosion penodol.[42] Mae'r penderfyniad i ymestyn pwerau ynadon fel y gallant ddedfrydu diffynyddion i garchar am hyd at 18 mis yr un mor berthnasol i'r llywodraeth a'r Senedd. Fodd bynnag, mae'n peri pryder i mi ei fod yn creu lled band rhy gyfyng ar gyfer troseddau yn yr Adran Mainc sydd, yn fy marn i,

---

[40] Gweler Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025), Pennod 5 (Proses y Llys Ynadon).

[41] Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad o Effeithlonrwydd mewn Achosion Troseddol (Barnwriaeth Cymru a Lloegr, Ionawr 2015), para. 336. Drwy gyfatebiaeth, yng nghyfraith teulu (a allai olygu materion difrifol iawn sy'n ymwneud ag Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol), mae'r llys yn penderfynu a yw anghydfod yn cael ei wrando gan ynadon, Barnwr Rhanbarth (Llys ynadon), Barnwr Rhanbarth, Barnwr Cylchdaith neu Farnwr Uchel Lys.

[42] Gweler Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (2025), Pennod 5 (Proses y Llys Ynadon).

yn fecanwaith hollbwysig ar gyfer delio â throseddau lefel isel sydd wedi'u hanfon i Llys y Goron ar gyfer treial ac sy'n cyfrannu at faint y llwyth achosion sy'n weddill.[43]

35. Mae'r argymhelliad i gyflwyno Adran Mainc fel rhan o Lys y Goron wedi'i dderbyn gan y llywodraeth. Rwy'n cydnabod bod y proffesiynau cyfreithiol, i raddau helaeth, wedi bod yn uchel eu llais yn gyhoeddus yn eu gwrthwynebiad i'r cynnig hwn. Mae nifer o ddadleuon wedi'u defnyddio. Mae dweud, fel yr awgrymwyd, bod rheithgorau wedi bod yn sail i gyfiawnder troseddol am 800 mlynedd yn cael ei danseilio gan unrhyw ystyriaeth o hanes cyfreithiol. Mae hanes a datblygiad treialon gan reithgor yn cael ei nodi yn Adroddiad Syr Robin Auld.[44] Nid yw'n nodi, fodd bynnag, mai dim ond ym 1898 y cafodd diffynyddion yr hawl i roi tystiolaeth yn eu hamddiffyniad eu hunain. Lai na 60 mlynedd yn ôl, anfonwyd treialon yn llawer cyflymach nag sy'n bosibl heddiw. Fel y dywedais, mae hyn, i raddau helaeth, oherwydd cymhlethdod cynyddol natur weithdrefnol a thystiolaethol ond hefyd, yn rhannol, oherwydd dirywiad mewn effeithlonrwydd.[45]

36. Dadleuir nad rheithgorau sydd ar fai am y llwyth achosion agored. Nid wyf erioed wedi awgrymu'r gwrthwyneb. Mae rheithgorau yn gwrando ac yn penderfynu ar yr achosion a gyflwynir ger eu bron ac yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol wrth wneud hynny. Mae llawer sydd wedi'u galw i wasanaethu ar reithgor wedi sôn am gydnabod eu rôl sydd wedi bod yn werthfawr ac yn bwysig. Mae hynny'n arbennig o wir mewn perthynas â'r achosion mwyaf difrifol. Wrth ddiolch i reithgor am eu gwasanaeth, arferwn sôn amdano fel dyletswydd uchaf dinesydd. Ond nid y farn hon yw'r unig un. Adroddodd Syr Robin Auld nad oedd 'cefnogaeth yn gyffredinol, yn enwedig ymhlith y rheini a fu'n rheithwyr'. Bu mwy nag ychydig o adroddiadau am reithwyr sydd, hyd yn oed os ydynt yn cymryd rhan mewn treialon, wedi ystyried bod

---

[43] Deallaf fod y pŵer i ymestyn pwerau dedfrydu y llys ynadon o roi 18 mis o garchar i ddwy flynedd yn cael ei gynnig ond ni fydd o reidrwydd yn cael ei weithredu yn dibynnu ar sut mae addasiadau eraill i'r system yn effeithio ar y llwyth achosion sy'n weddill.
[44] Adolygiad o Lysoedd Troseddol Cymru a Lloegr gan Y Gwir Anrhydeddus Syr Robin Auld: Pennod 5 paragraffau 7–10.
[45] I ddarllen mwy am gymhlethdod cynyddol cyfraith droseddol, treialon a gweithdrefnau a hyd cynyddol treialon, gweler Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025), Pennod 2 (Adnabod y Broblem).

eu hamser (a'r tarfu a'r gost i'w bywydau) wedi'i gymryd i ddatrys materion nad oeddent yn eu hystyried yn haeddu'r sylw a gawsant.

37. Mae'n anochel bod rhaid i'r treialon hyn fynd rhagddynt ar gyflymder y rheithiwr arafaf. Nid yw'r Barnwr yn penderfynu ar y ffeithiau ac felly dim ond gallu cyfyngedig sydd ganddynt i gyfyngu ar dystiolaeth hirwyntog neu ddiangen. Fodd bynnag, mae gan y Barnwr rôl hanfodol wrth fynnu bod y partïon yn canolbwyntio ar y materion yn yr achos a fyddai'n haws mewn achosion nad ydynt yn cynnwys rheithgor. Yr hyn rwyf wedi'i wneud yw gwahodd ystyriaeth o gymesuredd treialon gyda rheithgor ar gyfer troseddau sydd ddim, er eu bod o bosibl yn ddifrifol, ymhlith rhai o'r troseddau mwyaf difrifol. Nid oes neb yn awgrymu y dylai pob trosedd gael ei wrando a'i benderfynu gan reithgor – hyd yn oed y rhai a allai arwain at golli swydd.[46]

38. Y cwestiwn yw ble i dynnu'r llinell gan ystyried yr holl amgylchiadau. Rhaid i'r amgylchiadau hynny ystyried amseroldeb unrhyw dreial. Dylent hefyd gynnwys ystyriaeth o anghenion dioddefwyr, tystion ac, yn wir, y diffynyddion hynny y mae eu bywydau ar stop tra bod eu hachos yn aros i gael ei benderfynu. Digon yw dweud, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth, heb gyflwyno Adran Mainc sy'n effeithiol i ddelio ag achosion sy'n aros yn y system ar hyn o bryd,[47] y bydd oedi a'r llwyth achosion sydd heb eu datrys yn parhau i gynyddu. I'r un graddau, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y byddai Adran Mainc yn penderfynu achosion yn llawer cyflymach (heb golli tegwch) nag achosion a wrandewir gan reithgor. Mae angen dyddiau eistedd ychwanegol (ac mae'n rhaid dod o hyd nid yn unig i lysoedd ond i gyfreithwyr, barnwyr a staff ar eu cyfer) ond, ar eu pennau eu hunain, nid ydynt yn ddigonol i sicrhau bod achosion yn cael eu penderfynu o fewn amser rhesymol.

---

[46] Er bod modd cael treial gyda rheithgor yn wreiddiol, ni ystyrir bellach bod gyrru dan ddylanwad alcohol yn addas ar gyfer treial gyda rheithgor hyd yn oed os bydd y canlyniadau i ddiffynnydd sy'n ennill bywoliaeth drwy yrru yn golygu y bydd yn colli'r swydd honno.

[47] Mae gan y rhai a gyhuddir o drosedd hawl i dreial teg. Dylai'r treial hwnnw fod yn unol â'r gyfraith fel y mae ar ddechrau'r treial. Yn yr un modd ag y gwnaethpwyd pan gyflwynwyd dyfarniadau mwyafrifol ym 1967, roeddent yn berthnasol i dreialon a oedd heb eu cwblhau bryd hynny (ac yn yr un modd mewn perthynas â derbyn tystiolaeth yn dilyn newidiadau yn y gyfraith), felly os cyflwynir Adran y Fainc, bydd yn berthnasol o ddechrau'r ddeddfwriaeth. Ni fydd gwneud fel arall yn newid diwylliant y diffynyddion hynny sydd ond yn ceisio gohirio eu hachos.

39. Deallaf yr her mewn perthynas â chyfranogiad ynadon yn yr Adran Mainc. Nodwyd fy rhesymau dros gymryd safbwynt gwahanol yn Rhan I.[48] Bydd astudiaeth effaith ar hil yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, heb os. Fodd bynnag, sylweddolaf fod hyn yn fater i'r llywodraeth a'r Senedd yn gyfan gwbl.

40. Y maes mwyaf arwyddocaol lle mae'r llywodraeth wedi cymryd safbwynt gwahanol yw'r un sy'n ymwneud ag ymwrthod â rheithgor. Mae hynny'n ymwneud â hawl diffynnydd a gyhuddir o drosedd ditiadwy neu un sy'n debygol o arwain at gyfnod o fwy na thair blynedd dan glo (ac felly y tu allan i'r Adran Mainc): argymhellais y dylai'r rhai a gyhuddir o rai troseddau a fyddai'n cael eu gwrando ar ffurf treial gyda rheithgor allu dewis cael eu treialu gan farnwr yn unig. Rwy'n cydnabod bod gallu'r diffynnydd i ddewis hynny yn gwrthdaro â'r egwyddor y dylai penderfyniadau ynghylch dull treial gael eu gwneud gan y llys. Fodd bynnag, rwyf wedi cymryd safbwynt gwahanol. Mae penderfyniad gan y Senedd nad yw rhai troseddau'n cyfiawnhau amser a chost treial gyda rheithgor yn un peth. Mae penderfyniad gan ddiffynyddion, er bod ganddynt hawl i gael treial gyda rheithgor, ond y byddai'n well ganddynt gael eu treialu gan farnwr yn unig yn beth arall. Byddai treial barnwr yn unig yn gyflymach ac yn arwain at ddyfarniad rhesymegol: efallai y byddai'n well gan lawer y dull hwnnw. Mae profiad y tair talaith yn Awstralia, Seland Newydd a Chanada yn cefnogi'r casgliad hwnnw.[49] Fel y nodais yn glir, penderfyniad i'r llywodraeth a'r Senedd yw hwn, unwaith eto.

41. O ystyried natur eang a chynhwysfawr y diwygiadau hyn, bydd gwerthuso eu heffaith yn hollbwysig. Bydd hyn yn helpu gwneuthurwyr penderfyniadau i ddeall beth sy'n gweithio a beth y gallai fod angen ei newid ymhellach er mwyn llywio datblygiad polisi yn y dyfodol. Felly, rwy'n argymell bod y llywodraeth, y farnwriaeth a'r holl asiantaethau cyfiawnder troseddol perthnasol yn gweithio i weithredu gwerthusiad o ddiwygiadau allweddol sy'n cael ei weithredu o'r cychwyn cyntaf gyda llinell sylfaen glir. Dylai hyn gynnwys cael tîm arbenigol, gyda'r sgiliau cywir yn ymroi i werthuso'r

---

[48] Gweler Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson, Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol: Rhan I (MoJ, 2025), Pennod 8 (Strwythur Llys y Goron).
[49] Gweler ibid

diwygiadau. Fel y nodaf yn Rhan II o'r Adolygiad, dylai Cynghorydd Cyfiawnder Troseddol arfaethedig y Prif Weinidog fod yn gyfrifol o'r cychwyn cyntaf am y strategaeth werthuso ar gyfer argymhellion a wneir yn y ddwy ran o'r Adolygiad hwn.[50]

42. Fel y dywedais, nid wyf yn ystyried bod y llywodraeth wedi methu â chydnabod prif bwynt yr argymhellion strwythurol yr wyf wedi'u hawgrymu. Wedi dweud hynny, rwy'n ail-bwysleisio'r angen hollbwysig i wneud newid systemig sylweddol er mwyn osgoi i'r system ddirywio i un lle mae oedi yn cynyddu'n gyson. Canlyniad anghyfforddus ond anochel hynny fyddai gwadu cyfiawnder gwirioneddol i bawb.

## Yn olaf

43. Nid wyf wedi ceisio blaenoriaethu'r argymhellion a wneuthum. Rwy'n cydnabod y bydd rhai yn haws i'w cyflawni nag eraill ac rwyf yr un mor ymwybodol y bydd cyllid digonol yn fater pwysig pan wneir y penderfyniad a ddylid blaenoriaethu ac, os felly, sut i flaenoriaethu. Fodd bynnag, rwy'n ailadrodd na fydd mwy o arian a mesurau effeithlonrwydd yn unig yn ddigon i sicrhau bod y system yn gweithredu fel y dylai. Er mwyn cael y siawns orau o lwyddo, mae angen y tair lifer hollbwysig – arian, diwygio strwythurol ac effeithlonrwydd. Po gyntaf y gellir gweithredu'r tri, cyflymaf fydd dechrau'r adferiad.

44. Yn yr wythnosau cyn i mi ymddeol fel Llywydd Adran Mainc y Frenhines ym mis Mehefin 2019, traddodais ddwy ddarlith. Gorffennais bob un gyda geiriau yr oeddwn i'n meddwl eu bod yn gywir. Dywedais y byddwn yn edrych ymlaen gyda diddordeb mawr i weld beth oedd gan y dyfodol i'w gynnig a dymunais yn dda i'r gynulleidfa, gan ddweud bod y dyfodol yn eu dwylo nhw. Yn y digwyddiad, trodd hynny allan i beidio â bod yn wir ac rwyf wedi ceisio dros y flwyddyn ddiwethaf i amddiffyn yr hyn yr wyf bob amser wedi'i drysori yn y system cyfiawnder troseddol, gan gydnabod (fel

---

[50] Gweler Pennod 3 (Un System Cyfiawnder Troseddol).

yr awgrymodd Syr Robin Auld yn 2001 ac y dywedais i eto yn 2015) y byddai newid yn hanfodol pe bai dull eang y system yr oeddem yn ei gweithredu i barhau.

45. Mae'r angen i adnewyddu hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol yn amlwg ac, yn fy marn i, yn hollbwysig i gymdeithas gyfan. Yn y pen draw, fodd bynnag, nid yn unig y mae'r penderfyniadau'n gorwedd gyda'r llywodraeth, y Senedd a'r farnwriaeth, ond hefyd gyda phawb sy'n gwneud cyfraniad mor bwysig i'r system cyfiawnder troseddol. Mae hyn yn cynnwys yr heddlu, GEG ac awdurdodau erlyn eraill, cyfreithwyr yr amddiffyniad troseddol, y Bar, GLlTEF a HMPPS. Ni allaf ond dymuno'n dda iddynt wrth iddynt fynd i’r afael â’r newidiadau sydd eu hangen i ailsefydlu ein system cyfiawnder troseddol fel rhywbeth y mae'r byd yn genfigennus ohono. Rwy'n ailadrodd: mae'r dyfodol yn eu dwylo nhw.



**Y Gwir Anrhydeddus Syr Brian Leveson**

**12 Ionawr 2026**